




# Cynllun Blynyddol Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau

Cyhoeddwyd 6 Ebrill 2023

Gwneud Synnwyr
o'r Cyfryngau

# Cynnwys

## Adran


1. Crynodeb gweithredol ........ 3
2. O’r Ymagwedd i’r Gweithgarwch ........ 5
3. Ymgysylltu ........ 8
4. Cychwyn ........ 10
5. Gwerthuso ........ 12
6. Sefydlu ........ 13
7. Ymchwil ........ 14
8. O Weithgarwch i Ganlyniadau ........ 16

# 1. Crynodeb gweithredol

Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn ymwneud â phobl – beth maen nhw'n ei wneud ar-lein i gysylltu ag anwyliaid, prynu gwasanaethau hanfodol, cymryd rhan mewn cymdeithas, cael mynediad at addysg, mwynhau adloniant a llawer mwy. Wrth i fwy a mwy o elfennau o fywydau pobl fynd yn ddigidol yn gyntaf neu'n ddigidol yn unig, mae poblogaeth sy'n hyfedr yn y cyfryngau yn hanfodol i gymdeithas weithredol. Mae'n golygu bod â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r addysg i ffynnu ar-lein. Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein hefyd yn ymwneud â'r llwyfannau y mae pobl yn gwneud y pethau hynny arnynt. Mae'n rhan annatod o ddiogelwch ar-lein ac yn mynd y tu hwnt iddo. Mae Ofcom yn diffinio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'r rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM) yn canolbwyntio ar yr amgylchedd ar-lein, gan gydnabod bod amrywiaeth o fathau o hyfedredd yn y cyfryngau all-lein yr ydym yn rhoi sylw iddynt yn ein hymchwil.

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, fel y nodir yn adran 11 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, ac mae gennym ddyletswydd hefyd i wneud trefniadau i gynnal ymchwil i faterion sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, fel y nodir yn adran 14(6)(a) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, byddwn yn ceisio, dros flwyddyn ariannol 2023/24, defnyddio ein safle fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, y sylfaen dystiolaeth a'r adnoddau rydym wedi'u datblygu i arfogi'r sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i fod yn fwy effeithiol, i archwilio sut mae ehangu ffrydiau cyllido ac annog llwyfannau ar-lein i wneud mwy ar y llwyfan, ac i ariannu mwy, oddi ar y llwyfannau.

## Cefndir

Mae ein cynllun ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn canolbwyntio ar elfennau '**dim ond Ofcom sy'n gallu gwneud**' ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y DU – fel ein cyfraniad ni at fynd i'r afael â heriau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein y DU. Fodd bynnag, mae gennym ddyletswyddau eang o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac rydym wedi dewis eu dehongli mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys fel cynullydd rhanddeiliaid a chatalydd ar gyfer syniadau newydd, er mwyn herio'r sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i wneud yn well a herio'r llwyfannau ar-lein i wneud mwy i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae gan eraill hefyd rôl i'w chwarae – dim ond rhai enghreifftiau yw DSIT, yr Adran Addysg (DfE), y Gweinyddiaethau Datganoledig, gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant ac oedolion agored i niwed. Wrth gwrs, mae gan lwyfannau ar-lein gyfle sylweddol i wella ymwybyddiaeth eu defnyddwyr o'r cyfryngau ar-lein ac all-lein.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein papur Ymagwedd at Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Ar-lein, a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr 2021. Yn y ddogfen honno, rydyn ni'n nodi ein syniadau ynghylch sut mae'r rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn cyd-fynd â'n rôl reoleiddio ar-lein.

## Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau a Diogelwch Ar-lein

Mae Ofcom eisoes yn rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos (VSPs) a phan fydd y Bil Diogelwch Ar-lein, sydd yn y Senedd ar hyn o bryd, yn dod yn ddeddf, bydd yn dod yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU. Mae hyn yn aml yn arwain at gwestiynau ynghylch sut bydd y dyletswyddau diogelwch ar-lein newydd hyn yn berthnasol i'n dyletswyddau presennol o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Yn syml, mae ein gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn cefnogi ein dyletswyddau VSP presennol a'r dyletswyddau diogelwch ar-lein sydd ar ddod inni, ond mae hefyd ar wahân i'r dyletswyddau hynny.

Er enghraifft, mae ein gwaith yn datblygu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy egwyddorion dylunio gyda llwyfannau yn cael ei wneud o dan ein dyletswyddau presennol o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Bydd yn sail i'n ffordd o feddwl am ddiogelwch ar-lein, yn enwedig o ran y mesurau y gall llwyfannau eu rhoi ar waith i helpu defnyddwyr i rymuso eu hunain i gadw eu hunain yn fwy diogel ar-lein.

Yn yr un modd, cyfeiriodd ein hadroddiad ar ein blwyddyn gyntaf o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos at y camau mae llwyfannau wedi'u cymryd i wella ymwybyddiaeth eu defnyddwyr o'r cyfryngau neu i hyrwyddo ymatebion sy'n dangos gwell dealltwriaeth o'r cyfryngau, lle'r oedd hynny'n briodol.

Ar ben hynny, mae'r rhan fwyaf o'n hymyriadau peilot mewn cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn canolbwyntio ar risg neu niwed penodol – pobl hŷn sydd mewn perygl o dwyll neu sgamiau, neu allu pobl ag anableddau dysgu i ymdopi â chamwybodaeth a gwybodaeth gamarweiniol. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi comisiynu prosiectau peilot i ddeall sut y gallwn gefnogi pobl ifanc yn well i fynd ar-lein yn annibynnol am y tro cyntaf. Ein bwriad yw eu rhoi ar y llwybr i lwyddo drwy roi iddynt y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Mae'r holl ymyriadau hyn yn digwydd mewn meysydd o anfantais ariannol ledled y DU – ac maent wedi'u cynllunio i hyrwyddo ffyniant ar-lein, yn ogystal â diogelwch ar-lein.

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar ein cynnydd dros yr 16 mis diwethaf ers i ni gyhoeddi ein dogfen Ymagwedd a'n cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Rydym yn croesawu eich barn a'ch adborth. Anfonwch eich sylwadau at: makingsenseofmedia@ofcom.org.uk

# 2. O’r Ymagwedd i’r Gweithgarwch

Yn ein Hymagwedd at Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Ar-lein, fe wnaethom nodi ein huchelgeisiau a’n bwriadau tan ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae’r tabl isod yn dangos y cynnydd rydym wedi’i wneud:

**Tabl 1: Beth rydym wedi’i gyflawni**

| Yr hyn a ddywedon ni... | Beth rydym wedi’i gyflawni |
|---|---|
| **...o ran MSOM Ymgysylltu** | |
| Byddwn yn ymgymryd â rhaglen wedi’i thargedu i ehangu’r rhwydwaith MSOM, gan ganolbwyntio ar weithwyr proffesiynol rheng flaen er mwyn ymdrin mewn ffordd gyfannol â gwella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau (td. 11, td. 13, td. 27). | Rydym wedi ehangu’r rhwydwaith MSOM i dros 500 o aelodau. |
| Byddwn yn cynnal digwyddiadau rhithiol a, lle bo’n bosibl, wyneb yn wyneb i hybu rhannu gwybodaeth a gweithgareddau, ac rydyn ni’n bwriadu gwneud hyn mewn ffordd sy’n ddaearyddol gynhwysol. (td. 13, td. 27). | Fe wnaethom gynnal taith pedwar diwrnod o amgylch Gwledydd y DU ym mis Mehefin 2022, gan gyflwyno ein gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yng Nghaerdydd, Manceinion, Caeredin a Belfast.<br>Rydyn ni hefyd wedi cynnal digwyddiadau ar-lein i lansio ein Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion a Phlant o'r Cyfryngau 2022, ein hymchwil *Diwrnod ym Mywyd* a’n Pecyn Gwerthuso. |
| Byddwn yn ehangu ac yn dyfnhau ein gwaith i gynnull, hwyluso a chefnogi gweithgareddau’r sector eang sy’n ymdrin ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Rydym yn disgwyl i’n Panel a’n Rhwydwaith MSOM chwarae rhan allweddol yn hyn (td. 9).<br>Byddwn yn creu gweithgorau yn seiliedig ar y pum maes gweithgarwch (td. 27). | Rydym wedi adnewyddu ein Panel Cynghori ar MSOM, a’u cylch gorchwyl i herio a chefnogi ein gwaith yn well.<br>Rydym yn cyhoeddi’r Bwletin MSOM bob chwe wythnos - mae’n gyfle i’r rhai sy’n weithredol ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i rannu eu diweddariadau, eu prosiectau, eu hymchwil a’u llwyddiannau.<br>Rydym hefyd wedi recriwtio amrywiaeth o arbenigwyr i’r Gweithgorau i’n cynghori ar ein ffrydiau gwaith MSOM Sefydlu, Gwerthuso ac Ymchwil. |
| Byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid rhyngwladol, i sicrhau bod ein gwaith ni yn ategu eu gwaith nhw (td. 10). | Rydym wedi rhannu ein hymagwedd a’n syniadau â rheoleiddwyr rhyngwladol, gan gynnwys cwrdd â chynrychiolwyr o’r Almaen, Bosnia a Herzegovina, yr Eidal, a Thwrci, a Media Literacy Ireland. |
| **...o ran MSOM Sefydlu** | |

| Yr hyn a ddywedon ni... | Beth rydym wedi'i gyflawni |
|---|---|
| Fel rhan o'n hadroddiad VSP blynyddol cyntaf, sydd wedi'i drefnu ar gyfer hydref 2022, byddwn yn nodi ein hasesiad o'r mesurau mae VSPs wedi'u defnyddio i ddatblygu ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r cyfryngau, gan gynnwys drwy ddylunio profiad y defnyddiwr a thaith y defnyddiwr (td. 18). | Cyhoeddodd Ofcom ei Adroddiad (VSP) cyntaf ym mis Hydref 2022. Roedd yn tynnu sylw at yr adnoddau a'r wybodaeth sydd gan lwyfannau o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan gynnwys ymyriadau ar y llwyfan sy'n cefnogi ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r cyfryngau. |
| Byddwn yn nodi materion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â defnyddwyr ar-lein a gwneud penderfyniadau ar-lein (td. 27). | Gwnaethom amrywiaeth o waith i ddatblygu ein dealltwriaeth, gan gynnwys dau dreial Mewnwelediad Ymddygiadol – Behavioural insights for online safety: understanding the impact of VSP design on user behaviour a Serious Game Pilot a oedd yn treialu gêm ddifrifol fel dull o wneud plant yn fwy diogel ar-lein. |
| Byddwn yn ceisio sefydlu egwyddorion dylunio arferion gorau ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac rydym yn croesawu'r camau y mae rhai llwyfannau eisoes wedi'u cymryd i ymgorffori ystyriaethau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn nyluniad eu gwasanaeth (td. 4, td. 9, td. 17, td. 27). | Rydym ar y trywydd iawn gyda'r gwaith hwn ac rydym yn bwriadu cyhoeddi egwyddorion drafft yn nhymor yr hydref 2023.<br>Mae cynrychiolwyr llwyfannau ar-lein yn cymryd rhan yn y broses hon, gydag amrywiaeth o arbenigwyr eraill yn cefnogi'r gwaith o greu'r egwyddorion hyn. |
| **...o ran MSOM Cychwyn** | |
| Byddwn yn cefnogi'r sector drwy gomisiynu mentrau i wasanaethu carfannau penodol mewn cymunedau y cydnabyddir bod ganddynt anghenion penodol o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau (td. 4, td. 9, td. 14-15).<br>Byddwn yn darparu gwersi i'r sector o'n treialon peilot (td. 27). | Er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gwneud ymyriad cymunedol yn llwyddiannus, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ymchwil: Adroddiad Ymchwil Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau Ofcom – Beth sy'n gweithio wrth gyflwyno rhaglenni cymunedol<br>Ym mis Ionawr 2023, fe wnaethom gomisiynu 13 o sefydliadau ledled y DU i weithio gyda'r canlynol:<br>• Oedolion hŷn<br>• Pobl ag anawsterau dysgu neu gyflyrau niwrolegol<br>• Plant 10-14 oed<br>• Cymunedau sy'n wynebu anfantais ariannol<br>Bydd y prosiectau peilot hyn yn rhedeg tan fis Mawrth 2024, a bydd ein harbenigwyr annibynnol yn gwerthuso effaith eu gwaith drwy gydol y prosiect. Caiff ein hadroddiadau terfynol eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2024. |
| **...o ran MSOM Gwerthuso** | |

| Yr hyn a ddywedon ni... | Beth rydym wedi'i gyflawni |
|---|---|
| Bydd Ofcom yn cynhyrchu canllawiau hygyrch a rhyngweithiol ar sut i werthuso ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a sylfaen tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio (td. 9, td. 20-21, td. 27).<br><br>Byddwn yn datblygu pecyn cymorth digidol, ac yn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd, er mwyn dod â chanllawiau at ei gilydd ar werthuso a'r sylfaen tystiolaeth ar y cyd (td. 22). | Cyhoeddwyd ein Pecyn Gwerthuso ym mis Chwefror 2023.<br><br>Mae hwn yn rhoi arweiniad cam-wrth-gam ar sut i gynnal gwerthusiad ac mae wedi cael ei ddylunio i ddiwallu anghenion amrywiaeth o sefydliadau darparu. Mae'r Pecyn hefyd yn cynnwys dwy lyfrgell sy'n casglu ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac ymchwil perthnasol a gyhoeddwyd. |
| Byddwn hefyd yn ceisio cydlynu â sefydliadau a fforymau eraill sy'n ceisio annog mwy o werthuso cynlluniau ac ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau (td. 22). | Mae Cronfa Rhaglen Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon/DSIT a Chronfa'r Tasglu Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau yn defnyddio'r pecyn cymorth hwn. |
| Byddwn yn parhau i ychwanegu agweddau pellach ar "beth sy'n gweithio" at ein Pecyn Gwerthuso (td. 27). | Mae ein Pecyn Gwerthuso yn fwriadol ailadroddol ac rydym yn croesawu unrhyw gyfraniadau perthnasol i'w ymyrraeth ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a'i lyfrgelloedd ymchwil. |
| **...o ran MSOM Ymchwil** | |
| Byddwn yn parhau i gynnal ymchwil mewn amrywiaeth o feysydd (td. 27). Byddwn yn cyhoeddi cyfres o ymchwil ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau (td. 27).<br><br>Byddwn yn gweithio'n agos gydag ymarferwyr ymchwil eraill yn y sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a gyda rhanddeiliaid – gan gynnwys llwyfannau ar-lein – i nodi meysydd newydd lle gall ymchwil ychwanegu'r gwerth mwyaf, ac i sbarduno gweithgarwch yn y meysydd hyn (td.26).<br><br>Cyfres barhaus o gyhoeddiadau a deialog (td. 27). | Cafodd ein hymchwil *Diwrnod ym Mywyd* ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2022, gan ddangos fel y mae ymwybyddiaeth unigolyn o'r cyfryngau yn ganlyniad amryw o ffactorau sy'n gysylltiedig â'i amgylchiadau penodol, a'i agweddau a'i ymddygiadau sylfaenol.<br><br>Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddasom ein cyfres flynyddol o ymchwil ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan gynnwys adroddiad ar allgáu digidol ymysg oedolion yn y DU.<br><br>Rydym hefyd wedi dechrau ymchwil i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac iechyd meddwl, safbwyntiau lleiafrifol, technolegau trochi a thechnolegau'r dyfodol, ac agweddau defnyddwyr at ymyriadau ar-lwyfan. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2023, haf 2023, haf 2023 a hydref 2023.<br><br>Mae ein gweithgor ymchwil yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn i rannu gwybodaeth a chynllun ymchwil. Nod y grŵp yw cyfrannu at weithgarwch ymchwil Ofcom i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a diogelwch ar-lein ehangach, a gwella sylfaen tystiolaeth ymchwil y sector cyfan. |

# 3. Ymgysylltu

Mae ymgysylltu â'r ystod eang o arbenigedd ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y sector darparu, y byd academaidd ac yn rhyngwladol yn allweddol er mwyn rhannu gwybodaeth, effeithlonrwydd a deall beth sy'n gweithio'n gyflymach.  Bydd Ofcom yn parhau i wneud hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd eleni, yn cynnwys:

## Ein Panel Cynghori a'n Gweithgorau Arbenigol

Mae'n fraint cael mwynhau ymgysylltiad gweithredol yr 13 aelod ar ein panel, uwch arbenigwyr o'r sefydliadau hyn sy'n cynnig i ni gyfeillgarwch beirniadol, sy'n sganio'r gorwel ac yn cynnig cyfleoedd rhwydweithio drwy eu cysylltiadau helaeth.  Mae'r Panel yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, ac mae'r aelodau'n gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd.  Mae gan gydweithwyr o DCMS/DSIT a'r Adran Addysg statws sylwedydd ar y Panel.

Yn ogystal â'r Panel, rydym yn ddiolchgar am arbenigedd ein tri gweithgor – sy'n cefnogi ein gwaith Sefydlu, Gwerthuso ac Ymchwil.

### Rhannu Gwybodaeth a Rhwydweithio

Yn ogystal â dod ag arbenigedd i Ofcom, rydym wedi ymrwymo i rannu'r hyn rydym yn ei wybod drwy ein hymchwil a'n gwybodaeth ein hunain.  Eleni, byddwn unwaith eto'n cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb ym mhob Gwlad ym mis Mehefin a chynhadledd wyneb yn wyneb yn Llundain yn yr hydref.  Bydd gwybodaeth am y digwyddiadau hyn ar gael i'r Rhwydwaith MSOM – cofrestrwch yma.

Yn ogystal â'r digwyddiadau wyneb yn wyneb hyn, byddwn hefyd yn parhau i gynnal cyflwyniadau ymchwil ar-lein er mwyn i fwy o bobl allu cael gafael ar yr wybodaeth sydd gennym.  Rydym yn disgwyl darparu'r canlynol:

- Digwyddiadau rhwydwaith ar-lein chwarterol
- Gwybodaeth flynyddol am dracio Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau
- Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, Technoleg Drochi a briff polisi ac ymchwil ar-lein y dyfodol
- Cyflwyniadau llafar cyson mewn cynadleddau a seminarau yn y DU ac yn rhyngwladol.

## Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i bawb

Byddwn yn parhau i weithio’n agos a datblygu cysylltiadau ag amrywiaeth o sefydliadau: masnachol a thrydydd sector, sefydliadau ymchwil, academyddion, rheoleiddwyr eraill, adrannau llywodraeth ac ati i hyrwyddo pwysigrwydd cael dimensiwn ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn eu darpariaeth a’u hymarfer.

## Papurau trafod Technoleg y Dyfodol

Yn ogystal â dod ag arbenigwyr at ei gilydd, rydyn ni eisiau cefnogi’r gwaith o ddatblygu meddwl am dechnoleg y dyfodol agos a’r cyfleoedd a’r heriau o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a ddaw i gymdeithas yn ei sgil.  Byddwn yn gwneud hyn drwy gyhoeddi cyfres o bapurau trafod yn ystod y flwyddyn. Bydd y papur cyntaf, ar y Metafyd, yn cael ei gyhoeddi yn y gwanwyn.

# 4. Cychwyn

Mae ein gwaith Cychwyn wrth galon cenhadaeth Ofcom i sicrhau bod cyfathrebu'n gweithio i bawb. Ein hamcan yw nid datrys heriau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau y DU ar ein pen ein hunain, ond deall yn well sut mae cefnogi'r rheini sydd fwyaf mewn perygl o niwed ar-lein, er mwyn i ni allu bod yn rheoleiddiwr mwy effeithiol, herio'r sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i wneud mwy dros y rheini sydd fwyaf mewn perygl, a gweithio gyda'r llwyfannau ar-lein i'w hannog i ehangu eu cyllid rhaglenni.

Nod Ofcom yw gweithredu fel catalydd, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith ffyniannus a chynaliadwy o ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sy'n cael eu hariannu. Mae'r seilwaith hwnnw'n gofyn am nifer o gynhwysion allweddol sy'n mynd y tu hwnt i Ofcom:

- Amrywiaeth o wasanaethau elusennol, cymunedol a gwirfoddol sy'n arbenigwyr ar ddarparu ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau effeithiol, o ansawdd uchel
- Cyrff Ymddiriedolaeth a Sefydledig sy'n deall y cysylltiad rhwng anghydraddoldebau systemig ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau
- Sefydliadau corfforaethol sy'n gweld gwerth mewn datblygu sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer eu staff a'u cwsmeriaid ac sy'n ei wreiddio yn eu hamcanion – yn aml bydd hyn yn cysylltu â nod masnachol
- Cyllid statudol sy'n caniatáu cyflawni dros gyfnod hwy e.e. contractau sawl-blwyddyn.

Er mwyn datblygu'r seilwaith hwn, mae angen i ni chwarae ein rhan. Mae hyn yn golygu ein bod eisiau annog y llwyfannau a sefydliadau cyllido eraill i weld gwerth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel eu bod yn ei gyllido. Ac rydym am sicrhau bod nifer dda o sefydliadau'n gallu darparu mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau o safon.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno 13 cynllun ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan gynnwys darparu cymorth i werthuso'r gwaith sy'n cael ei wneud yn effeithiol, ynghyd â chyfleoedd i rannu dysgu.
- Dangos gwerth ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol i gyllidwyr, a rhoi enghreifftiau iddynt o'r effaith y gallant ei chael. Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth â'r sefydliadau cymunedol rydym wedi'u comisiynu i ddarparu a mesur effaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn effeithiol, a byddwn yn rhannu'r dulliau a'r dysgu hyn â'r rhwydwaith MSOM ehangach sy'n cynnwys sefydliadau darparu yn bennaf (gwasanaethau elusennol a chymunedol). Drwy gydol y cyfnod cyflawni, byddwn yn rhannu dulliau gweithredu a dysgu parhaus gyda'r sector a chyllidwyr drwy astudiaethau achos cyhoeddedig ac mewn cynadleddau a digwyddiadau perthnasol.

- Adeiladu cynaliadwyedd yn y sector drwy raglen datblygu’r gweithlu, y byddwn yn ei chomisiynu yn y flwyddyn ariannol hon.  Rydym yn edrych ar y ffyrdd gorau o gyflawni hyn, a allai gynnwys gweithio gyda rheoleiddwyr eraill neu gyrff proffesiynol.
- Cefnogi’r sector drwy nodi elfennau allweddol ar gyfer llwyddiant drwy ddeall beth sy’n gweithio mewn cymunedau sy’n cefnogi ymwybyddiaeth eu poblogaethau o'r cyfryngau yn dda a nodi ardaloedd lle nad yw hyn wedi datblygu cystal – er mwyn gallu datblygu rhaglenni o fewn eco-system a pheidio â’u dyblygu mewn ardaloedd lle mae digon yn cael ei wneud yn barod.

# 5. Gwerthuso

I gefnogi'r sector darparu Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau, rydym wedi creu pecyn cymorth i helpu ymarferwyr i werthuso effaith ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae'n adnodd hawdd ei ddefnyddio a grëwyd i helpu sefydliadau i feddwl yn systematig am effaith eu hymyriad, ac i asesu'n feirniadol pa elfennau o ymyriad sydd wedi gweithio a pha rai sydd angen eu mireinio.

Rydym yn cydnabod, mewn amgylchedd cyllido bregus a chystadleuol, y gall rhannu gwybodaeth am yr hyn sydd wedi gweithio, ac yn arbennig yr hyn nad yw wedi gweithio, fod yn heriol. Fodd bynnag, oherwydd ei bod hi'n anodd cael cyllid, rydym yn awyddus i gefnogi'r sector i ddeall yn gyflymach beth sy'n cael effaith hirdymor, a beth sydd ddim. Mae hynny er mwyn gallu cywiro rhagdybiaethau, gwallau a chamgymeriadau yn gynt wrth i wersi gael eu rhannu a'u dysgu'n gynt. Mae Ofcom wrthi'n edrych ar ffyrdd o rannu gwybodaeth ac enghreifftiau o'r gwersi a ddysgwyd.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth a chynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r pecyn, byddwn yn cynnal cyfres o seminarau thematig i gefnogi'r sector. Bydd y rhain yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn yn ôl y galw a byddant yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar adeiladu damcaniaeth newid a mesur ar gyfer effaith. Rydym hefyd yn agored i ddiwygio'r pecyn cymorth mewn ymateb i adborth.

Wrth gwrs, ni all pecyn, pa mor dda bynnag y caiff ei ddefnyddio, ar ei ben ei hun greu diwylliant lle mae gwerthuso'n digwydd yn ddiofyn, lle mae'r dysgu'n cael ei rannu, a lle mae'r ddealltwriaeth yn cael ei defnyddio i'r eithaf. Mae cyllidwyr a chomisiynwyr gwasanaethau yn hanfodol i'r gwaith hwn. Oni bai a hyd nes y bydd y rhai sy'n buddsoddi yn y sector yn gofyn y cwestiynau iawn am effaith a'r newid hirdymor mewn ymddygiad a ddaw yn sgil eu buddsoddiad, ni fydd gwerthuso'n dod yn gyffredin.

Felly, yn ogystal â rhaglen sydd â'r nod o annog y sector darparu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i fanteisio ar y pecyn, byddwn hefyd yn gweithio gyda chyllidwyr traddodiadol ac anhraddodiadol ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac ymyriadau perthnasol eraill. Ein nod yw hyrwyddo manteision gwerthusiadau priodol o ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a'r angen i'w cyllido. Ynghyd â'r sector, rydym am greu diwylliant lle mae gwerthuso yn rhan safonol o ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

# 6. Sefydlu

Mae gan lwyfannau ar-lein sy’n mabwysiadu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn eu dyluniad y potensial i drawsnewid profiad y defnyddiwr, drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau i ddefnyddwyr sy’n darparu gwell cyfleoedd ar gyfer ymateb sy’n hyfedr. Gallai hyn fod yn ysgogiad i ddarllen erthygl cyn ei hanfon ymlaen, neu’n hysbysiad bod y cynnwys rydych chi ar fin ei weld yn dod o ffynhonnell heb ei dilysu.

Rydym yn gweithio gyda phum llwyfan, yn ogystal ag amrywiaeth o academyddion, arbenigwyr gwybodaeth am ymddygiad a grwpiau eiriolaeth mewn Gweithgor i ddatblygu’r egwyddorion hyn, i gynyddu ein dealltwriaeth o’r arferion gorau ac i archwilio’r potensial ar gyfer dull cyffredin ar draws y diwydiant.

Drwy wneud hyn, byddwn yn annog gwasanaethau i fabwysiadu’r egwyddorion hyn a rhannu’u profiadau o wneud hynny. Byddwn hefyd yn gallu ystyried yr hyn rydym yn ei ddysgu sy’n berthnasol i’n gwaith polisi yn y dyfodol mewn perthynas â VSPs a swyddogaethau diogelwch ar-lein sydd ar y gweill, yn enwedig yng nghyswllt mesurau sy’n gallu helpu i rymuso defnyddwyr i gadw eu hunain yn fwy diogel ar-lein.

Mae ysgrifennu a meithrin consensws ynghylch yr egwyddorion hyn yn gymhleth ac yn heriol, a thrwy ein hymchwil a’n sgyrsiau â llwyfannau ac arbenigwyr y gweithgorau rydym yn gwneud cynnydd da. Disgwyliwn gyhoeddi egwyddorion drafft yn ystod tymor yr hydref 2023. Bydd yr egwyddorion yn canolbwyntio ar ddylunio ymyriadau ar-lwyfan sy’n cynnal dewis, sy’n hunan-ysgogol ac yn amserol.

Yn ogystal â’n gwaith gyda’r llwyfannau, rydym hefyd yn cynnal ein hymchwil ein hunain i brofiad defnyddwyr o’r ymyriadau hyn, er mwyn i ni allu cysoni'r hyn rydyn ni’n ei glywed gan y llwyfannau â’r hyn mae defnyddwyr yn ei ddweud wrthym. Bydd safbwynt y defnyddiwr yn hanfodol i sicrhau bod yr egwyddorion o fudd gwirioneddol i ddefnyddwyr yn eu bywyd bob dydd. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi’r ymchwil hwn ochr yn ochr â’r egwyddorion drafft yn nhymor yr hydref 2023.

Ar ôl ei gyhoeddi, byddwn yn gwahodd set llawer ehangach o lwyfannau cymdeithasol, chwilio a gemau i edrych a yw’r egwyddorion yn berthnasol iddyn nhw, er enghraifft mewn amgylcheddau ar-lein cymhleth fel VR, a beth fyddai’n ei gymryd i lwyfannau eraill fabwysiadu’r egwyddorion hyn.

Ym mlwyddyn ariannol 2023/24 byddwn yn annog llwyfannau cymdeithasol, chwilio a gemau i wreiddio arferion gorau o ran hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ddyluniad yn eu cynnyrch er mwyn gwneud y byd ar-lein yn fwy diogel i bawb.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:


- Datblygu egwyddorion arfer gorau er hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ddyluniad ar y cyd â’n gweithgor
- Ymgysylltu ag amrywiaeth eang o lwyfannau ar draws y cyfryngau cymdeithasol, chwilio a gemau i annog mabwysiadu
- Cynnal a, lle bo’n briodol, cyhoeddi ymchwil ar ymyriadau ar-lwyfan
- Archwilio sut rydym yn cynnal sgyrsiau â llwyfannau a rhanddeiliaid gan ddefnyddio’r egwyddorion arferion gorau fel man cychwyn
- Ystyried a all yr egwyddorion hyn chwarae rhan yn ein canllawiau i wasanaethau yn y dyfodol ynghylch sut mae cydymffurfio â’u dyletswyddau arfaethedig o dan y Bil Diogelwch Ar-lein a’r drefn VSP.

# 7. Ymchwil

Mae ein rhaglen ymchwil ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn cynnwys ein tracwyr meintiol ac ansoddol hirsefydlog yn ogystal â phrosiectau ymchwil annibynnol, pwrpasol, sy’n dyfnhau ein gwybodaeth mewn meysydd penodol.

Rydym wedi cynllunio’r rhaglen i fod yn adnodd ar gyfer y sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan ddarparu gwybodaeth gadarn, ddiduedd a manwl am amrywiaeth eang o bynciau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Rydym yn cynnal arolygon mawr o oedolion a phlant a’u rhieni, gan ddarparu gwybodaeth fanwl gan amrywiaeth o grwpiau demograffig. Mae ein harolygon a’n gwaith ansoddol yn rhai blynyddol, sy’n golygu (ar wahân i newidiadau diweddar i fethodolegau oherwydd covid) ein bod yn gallu darparu tueddiadau dros amser. Mae ein setiau data ar gael i’r cyhoedd ar ein gwefan ac rydym yn annog trydydd partïon i’w defnyddio i gynnal eu dadansoddiad eu hunain.










Yn ogystal â’n tracwyr, rydym yn cynnal ymchwil dewisol i arfogi a goleuo’r sector a’n syniadau ni ein hunain. Eleni, fel y llynedd, byddwn yn canolbwyntio ar angori ein gwaith ym mhrofiadau uniongyrchol pobl o amrywiaeth o gefndiroedd ledled y DU. Mae ein hymchwil Diwrnod ym Mywyd, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022, yn dangos yr amrywiaeth cyd-destunau lle mae ymwybyddiaeth unigolyn o’r cyfryngau ar waith, ac yn dangos bod ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn deillio o amryw o ffactorau sy’n gysylltiedig â’i amgylchiadau penodol, a’i agweddau a’i ymddygiad sylfaenol. Byddwn yn adeiladu ar y ddealltwriaeth honno eleni i ddatblygu mapiau ymddygiad manwl fel sail ar gyfer cynhyrchu a blaenoriaethu cyfres o ymyriadau posibl ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn modd systematig.

Rydym yn parhau i ymrwymo i rannu a chynllunio ein hymchwil drwy ein Gweithgor Ymchwil a’n rhwydwaith MSOM, ac i ddod o hyd i ffyrdd o’i gwneud yn haws i lywio drwy’r cyfoeth o wybodaeth sy’n bodoli o’n gwaith ni a gwaith trydydd partïon. Eleni, rydym yn edrych ymlaen at rannu canlyniadau ein hymchwil i:

- Iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a fydd yn dangos ystod eang o fentrau ac yn awgrymu rhai ffyrdd posibl o gefnogi ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein ac iechyd meddwl yn well. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein canfyddiadau yn ystod gwanwyn 2023.
- Agweddau defnyddwyr at ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein a fydd yn dod â phersbectif y defnyddiwr i’n hegwyddorion arferion gorau drafft ac yn rhoi dealltwriaeth i ni o’r ffordd y mae cyd-destun yn rhyngweithio â barn defnyddwyr am yr ymyriadau. Rydym yn disgwyl cyhoeddi’r ymchwil hwn yn ystod hydref 2023 ar y cyd â’n hegwyddorion arferion gorau.

- Safbwyntiau lleiafrifol, yn archwilio sut mae *safbwyntiau lleiafrifol* yn cael eu ffurfio, yr effaith ar unigolion, y rhesymau dros ymddygiad wrth ddod ar draws gwahanol ffynonellau gwybodaeth, sut mae cywirdeb gwybodaeth yn cael ei asesu a sut mae hyn yn gwahaniaethu rhwng gwahanol grwpiau. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r canfyddiadau yn ystod haf 2023.

- Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, Technoleg Drochi a'r Dyfodol, a fydd yn nodi'r manteision a'r heriau i ddod o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn gysylltiedig â thechnoleg drochi a'r metafyd. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r canfyddiadau yn ystod haf 2023.

Bydd y rhaglen ymchwil hon yn darparu gwybodaeth sy'n llenwi bylchau hysbys mewn gwybodaeth, o ran pynciau a grwpiau demograffig, fel adnodd parhaus ar gyfer y sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

# 8. O Weithgarwch i Ganlyniadau

Mae gan Ofcom ddyletswyddau eang o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, ac mae gennym rywfaint o ddisgresiwn i ddatblygu ac esblygu ein meysydd ffocws yn ôl yr angen. Mae’r ddogfen hon yn dangos bod ein rhaglen yn gyfuniad o ymchwil, ymyriadau cymunedol a gwaith i annog llwyfannau ar-lein i gefnogi ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, sy’n cyd-fynd â’n dyletswyddau o ran ymwybyddiaeth o’r cyfryngau a bydd yn help i gefnogi ein paratoadau i fod yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU.

Mae’r rhaglen hon yn fwy na dim ond yr elfennau unigol, a bydd yn ymdrech dros sawl blwyddyn. Er y bydd ein canlyniadau’n newid dros amser, am y tro rydym yn canolbwyntio ar gyflawni’r pethau hyn:

- Annog y llwyfannau ar-lein mwyaf i ddangos **ymrwymiad** i hyrwyddo ymwybyddiaeth eu defnyddwyr o'r cyfryngau drwy ddylunio llwyfannau a chefnogi mentrau ymwybyddiaeth ar gyfer eu cymunedau
- Bod y cymunedau sydd â’r angen mwyaf yn **cael eu gwasanaethu’n dda** gan ymyriadau mwy effeithiol
- Bod y sectorau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau anhraddodiadol **yn cael eu grymuso** i gefnogi’r gwaith o ddatblygu sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau
- Bod gwerthuso wedi’i **wreiddio** yn y gwaith o gyflwyno rhaglenni ymwybyddiaeth o'r cyfryngau
- Bod ymchwil a gwybodaeth yn cael **eu rhannu a’u defnyddio** yn y sector a thu hwnt
- Bod cyllidwyr yn **rhoi blaenoriaeth** i effaith.

Fodd bynnag, mae’n rhaid i hyd yn oed raglenni dros sawl blwyddyn fod â cherrig milltir oddi mewn iddynt, felly rydym wedi nodi’r allbynnau a’r canlyniadau disgwyliedig dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt yn y tabl olaf isod.

**Tabl 2: Ein hallbynnau ar gyfer eleni fel rhan o'r newid diwylliant rydym am ei weld**

Mae'r tabl hwn yn tynnu sylw at ein hallbynnau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, ac yn eu cysylltu â'r canlyniadau strategol tymor hwy yr hoffem eu gweld.  Bydd Ofcom yn chwarae ei ran yn y gwaith o gyflwyno'r newidiadau hyn ac mae gennym ddiddordeb mewn clywed gan eraill am sut mae eu gwaith yn cyfrannu at y newidiadau hyn.

| Allbynnau 23/24 | Newid Diwylliant a Ddymunir |
|---|---|
| **Ymgysylltu** | |
| • **Byddwn yn cynnal un digwyddiad wyneb yn wyneb ym mhob un o wledydd y DU.** | • Cael diwylliant o rwydweithio a chydweithio traws-sector a thraws-ddisgyblaethol.<br>• Bod dealltwriaeth eang o rôl a phwysigrwydd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar draws amrywiaeth o sefydliadau darparu gwasanaethau. |
| • **Byddwn yn cynnal uwchgynhadledd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau wyneb yn wyneb i rannu syniadau Ofcom a chreu lle ar gyfer dysgu ar draws y sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.** | |
| • **Byddwn yn parhau i ehangu ein Rhwydwaith, ac yn defnyddio ein Panel a'n Gweithgorau i annog cydlynu a chydweithio.** | |
| **Polisi** | |
| • **Byddwn yn mabwysiadu model 'ymchwil, adroddiad, bwrdd crwn, ymateb' ar gyfer ein hallbynnau arweinyddiaeth meddwl, a fydd yn cynnwys cyhoeddiad ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac iechyd meddwl a thri phapur trafod ar y cyfleoedd a'r heriau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sy'n gysylltiedig â thechnoleg y dyfodol agos.** | • Bod polisi ac ymarfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu blaenoriaethu ar draws y DU<br>• Bod arferion ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn cael eu diweddaru a'u hystyried ar gyfer y dyfodol. |
| • **Byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr Diogelwch Ar-lein a VSP i gyflawni'r gofynion sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y trefniadau hynny.** | |
| **Ymyriadau ar gyfer cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol** | |
| • **Byddwn yn cael effaith amlwg ar dros 2,000 o bobl sy'n cymryd rhan mewn ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.** | • Bod cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn cael eu gwasanaethu'n well gydag ymyriadau amlach a mwy effeithiol.<br>• Bod gweithluoedd sy'n gwasanaethu pobl sy'n agored i niwed yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd i gefnogi anghenion ymwybyddiaeth o'r cyfryngau eu cymuned. |
| • **Byddwn yn darparu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth roi ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar waith ar gyfer oedolion hŷn, pobl ag anableddau dysgu, plant rhwng 10 a 14 oed a chymunedau sy'n wynebu anfantais ariannol.** | |

| Allbynnau 23/24 | Newid Diwylliant a Ddymunir |
|---|---|
| **• Byddwn yn darparu rhaglen hyfforddi a cheir ynddi gynnwys cwrs ar gyfer o leiaf un gweithlu sy'n cefnogi plant neu oedolion agored i niwed.** | • Y bydd plant ac oedolion agored i niwed yn cael mwy o gefnogaeth o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau wrth i'r gweithluoedd sy'n eu cefnogi siarad yn rheolaidd am eu bywydau ar-lein. |
| **• Byddwn yn creu rhwydweithiau mewn pedair ardal yn y DU nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd gan ddarpariaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a chreu glasbrint ar gyfer datblygu ymateb yn y gymuned i anghenion ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.** | • Bod pob awdurdod lleol yn ymwybodol o'r elfennau allweddol ar gyfer ymyriadau llwyddiannus yn y gymuned ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. |
| **Gwerthuso** | |
| **• Bydd pob un o'r rhaglenni a gomisiynir gennym yn cael ei gwerthuso o ran effaith a bydd y gwersi a ddysgir o'r gwerthusiadau hynny'n cael eu rhannu.** | |
| **• Byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn nodi themâu a heriau trawsbynciol ar draws yr ymyriadau a nifer o ganlyniadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.** | |
| **• Byddwn yn annog pobl i ddefnyddio'r pecyn gwerthuso ar draws y sector cyflawni ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a thu hwnt, gan anelu at sicrhau bod 100 o sefydliadau yn ei ddefnyddio erbyn mis Mawrth 2024.** | • Bod ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fwy effeithiol oherwydd bod gwerthuso'n arferol yn y sector, sy'n golygu bod gwersi'n cael eu dysgu'n gyflymach a bod arferion gorau'n cael eu mabwysiadu'n gyflymach. |
| **• Erbyn gwanwyn 2024, bydd o leiaf un cyllidwr llwyfan ac un cyllidwr mawr arall sy'n cyllido prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau wedi ymgorffori gwerthuso effaith yn eu prosesau.** | |
| **• Darperir cyflwyniadau gan randdeiliaid allanol am gynlluniau ac ymchwil, gan alluogi'r llyfrgelloedd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i gael eu diweddaru bob chwarter.** | |
| **Cyllid** | |
| **• Byddwn yn sefydlu un bartneriaeth gyda chyllidwyr allweddol y sector.** | • Bod mwy o fuddsoddi mewn ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a'i fod yn canolbwyntio ar gyllido effaith barhaol. |
| **• Byddwn yn cyhoeddi adolygiad o gyllidwyr a'u hawydd i werthuso.** | |

| Allbynnau 23/24 | Newid Diwylliant a Ddymunir |
|---|---|
| • **Byddwn yn ymgysylltu â chyllidwyr mewn meysydd cyfagos ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.** | |
| **Llwyfannau** | |
| • **Byddwn yn cyhoeddi'r Egwyddorion Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddyluniad a luniwyd ar y cyd yn nhymor yr hydref 2023 ar ffurf drafft ac yn gofyn am adborth gan randdeiliaid.** | • Bod llwyfannau mawr a bach yn defnyddio'r Egwyddorion Dylunio i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymysg eu sylfaen defnyddwyr. |
| **Ymchwil** | |
| • **Byddwn yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo amrywiaeth o adroddiadau ymchwil sy'n ymwneud â'n tracwyr blynyddol manwl ac ymchwil pwrpasol ar agweddau penodol ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.** | • Bod ymchwil yn goleuo ymarfer fel bod adnoddau'n cael eu cyfeirio'n well at y rhai sydd eu hangen fwyaf.<br>• Bod pobl yn fwy ymwybodol o ddimensiynau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a sut mae hyn yn amrywio ar draws cymdeithas<br>• Bod mwy o ymwybyddiaeth ymysg y sector o'r mathau o brosiectau ymchwil sy'n cael eu cynnal. |

**Tabl 3: Amserlen cyhoeddiadau ddangosol ar gyfer 2023-24**

| Cyhoeddiadau | | |
|---|---|---|
| Briff technoleg ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y dyfodol 1 | Cyhoeddiad | Gwanwyn 2023 |
| Adroddiad iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau | Cyhoeddiad | Gwanwyn 2023 |
| Ymchwil ansoddol i safbwyntiau lleiafrifol | Cyhoeddiad | Haf 2023 |
| Ymchwil ansoddol i dechnoleg drochi a thechnoleg y dyfodol ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau | Cyhoeddiad | Haf 2023 |
| Briff technoleg ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y dyfodol 2 | Cyhoeddiad | Haf 2023 |
| Egwyddorion arfer gorau ar gyfer llwyfannau | Cyhoeddiad | Hydref 2023 |
| Ymchwil i agweddau defnyddwyr at ymyriadau ar-lwyfan | Cyhoeddiad | Hydref 2023 |
| Briff technoleg ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y dyfodol 3 | Cyhoeddiad | Hydref 2023 |
| Astudiaethau achos Cychwyn | Cyhoeddiad | Gwanwyn 2024 |
| Adroddiadau gwerthuso Cychwyn | Cyhoeddiad | Gwanwyn 2024 |